

Mae ADUK yn croesawu'r Pwyllgor yn ymchwilio i lwyddiant y sector celfyddyd yng Nghymru i gynyddu eu cyllid nad yw'n gyhoeddus, dosbarthiad cyllid celfyddydol nad yw'n gyhoeddus yng Nghymru, a nodi modelau rhyngwladol o arferion gorau y gallai Cymru eu hysgogi yn hyn o beth.

Mae ein haelodaeth yn cynnwys gwasanaethau celfyddydol awdurdodau lleol, sefydliadau portffolio Cyngor Celfyddydau Cymru, ymddiriedolaethau diwylliannol, ymgynghorwyr diwylliannol, artistiaid a sefydliadau celfyddydol – y rhai sydd ar y rhyngwyneb rhwng y celfyddydau a'r gymuned. Mae ADUK yn cefnogi ei haelodau i nodi ffyrdd cyllido nad ydynt yn gyhoeddus trwy gynnwys adran 'Gwybodaeth am Gyllid' yn ein E-zine wythnosol a'r adran Ariannu ar ein gwefan. Rydym hefyd yn darparu cyfleoedd i'n haelodau rwydweithio'n rhanbarthol a chenedlaethol, i fynychu ein rhaglen o seminarau a chynadleddau, ac i rannu sgiliau a gwybodaeth aelodau eraill trwy ein Banc Sgiliau a Gwybodaeth ar-lein.

Credwn fod y sector yng Nghymru yn chwilio am gyfleoedd i gynyddu incwm, dyngarwch a buddsoddiad. Drwy sgwrsio gyda'n haelodau, fodd bynnag, credwn hefyd fod angen gwybodaeth, cyngor a chymorth pellach ar y sector diwylliannol i nodi a sicrhau'r cyfleoedd hyn yn effeithiol. Mewn marchnad ariannu gystadleuol gynyddol, lle mae grantiau'n anodd eu cyrraedd heb brofiad codi arian sylweddol, mae yna nifer o sefydliadau heb amser neu brofiad i wneud cais, neu sydd angen ystod o fecanweithiau cymorth i gyflawni adnoddau ychwanegol i gefnogi cynnyrch celfyddydol a chreadigol .

Mae Rhaglen Gydnerth Cyngor Celfyddydau Cymru yn cefnogi eu cleientiaid portffolio i gynyddu eu hincwm, ond beth am weddill y sector celfyddydol? Mae Celfyddyd a Busnes yn cyfrannu rhywfaint at gefnogi'r sector cyfan trwy gyrsiau hyfforddi sy'n cwmpasu meysydd fel codi arian, nawdd a datblygu busnes. Maent hefyd yn cynnig Cynllun Banc y Bwrdd lle mae sgiliau pobl mewn sefydliadau busnes sy'n aelod o'r sefydliad yn cael eu cyfateb i gryfhau sgiliau Bwrdd sefydliadau celfyddydol sy'n aelod. Mae yna hefyd rhaglen o gyfleoedd wybodaeth ac hyfforddi ar gael gan Celfyddydau Gwirfoddol Cymru. Ar wahân i'r rhain, mae angen i'r sector diwylliannol ddenu cefnogaeth unigolion busnes hynod fedrus a gwybodus sydd heb eu defnyddio'n ddigonol ar hyn o bryd.

Mae gan gleientiaid portffolio CCC anghenion gwahanol i grwpiau celfyddydol cymunedol lleol, ond i'r sector fod yn gynaliadwy ac yn wydn, mae angen mynd i'r afael ag anghenion pawb sydd ynddo. Mae angen cefnogaeth i lawer o grwpiau cymunedol i gynhyrchu refeniw o aelodaeth a gwasanaethau / gweithgareddau eraill, y gellid wedyn eu defnyddio i gael gafael ar hyfforddiant, gan gynyddu eu sgiliau marchnata a hyrwyddo. Mae rhai gwasanaethau'r celfyddydau awdurdodau lleol yn cynnig cymorth, cyngor a chyfeirio at grwpiau o'r fath. Rydym yn ymwybodol bod y sector diwylliannol yn gefnogol i'w gilydd; fodd bynnag, pa fwy gallwn ni ei ddysgu gan sectorau eraill?

Mae gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth yn allweddol i'r sector, a gellir eu cael trwy hyfforddiant, rhaglenni cefnogi cyfoedion, rhannu sgiliau, a dysgu o arferion traws-sector a sector-benodol o fewn Cymru a thu hwnt. Beth yw'r enghreifftiau o bob cwr o'r byd o wledydd sydd â demograffeg a daearyddiaeth debyg i Gymru? Beth yw statws eu sector celfyddydol a'i ffynonellau o arian nad yw'n gyhoeddus?

Er bod cynyddu incwm hunan-gynhyrchol ar gyfer y sector yng Nghymru yn bosibl, mae'n frwydr o fewn gwlad sydd â phocedi dwfn o amddifadedd. I'r mwyafrif, mae cyfleoedd i ymgysylltu ag a chymryd rhan yn y celfyddydau yn rhad ac am ddim neu am gost isel, gyda llawer yn cael eu cymhorthdal gan arian cyhoeddus. Mae llawer yn disgwyl y bydd y cyfleoedd hyn yn parhau i fod yn rhad ac am ddim neu'n gost isel, gan ostwng y cyfleoedd incwm a enillir trwy werthu tocynnau a ffioedd cyfranogi.

Credwn fod angen mynd i'r afael â'r gwerth cymdeithasol a roddir ar y celfyddydau fel bod pobl yn barod i dalu i ymgysylltu â darpariaeth y celfyddydau a chymryd rhan ynddynt. Mewn cymhariaeth, mae'n ymddangos bod gwerth cymdeithasol a roddir i chwaraeon yn ei alluogi i ennill incwm trwy'r dulliau hyn. Yn economaidd, mae'r galw yn erbyn y cyflenwad yn y sector chwaraeon yn ymddangos yn gytbwys; ydy'r cyflenwad yn gorbwyso'r galw yn y sector celfyddydol neu a oes angen creu galw am y celfyddydau yng Nghymru sy'n galluogi cyfle i gynyddu incwm a enillir yn y sector? Er enghraifft, mae lleoliadau megis Canolfan Mileniwm Cymru (CMC) yn gallu ennill incwm trwy raglennu sioeau gerdd boblogaidd yn y DU; eto, mae gwaith cerddorol newydd yn anodd eu gwneud a'i werthu. Mae gan y rhaglen sioeau gerdd boblogaidd adnabyddiaeth, enw da, a brand cryf sy'n creu galw am eu cyflenwad yng Nghymru. Sut allwn ni gyfieithu hyn i waith cerddorol newydd? Gellir gofyn y cwestiwn hwn hefyd at ffurfiau celf eraill.

Cred ADUK, er bod dyngarwch yn fodd y gall y sector gynyddu ei nawdd cyhoeddus, byddwn yn cwestiynu pa mor realistig yw hyn mewn gwlad sydd â lefel isel o gyfoeth o'i gymharu â gweddill y DU. Er hynny, pe bai'r sector yn gallu profi gwerth y celfyddydau a'i gyfraniad i'r sector, gall hyn ysgogi rhoi i'r sector. Ar wahân i ystumiau ariannol, gallai'r sector elwa o ddengradd yn nhermau amser, cyngor ac arbenigedd gan y rhai sy'n fedrus o ran gostwng dibyniaeth ar arian cyhoeddus.

O safbwynt buddsoddiad yn y sector, unwaith eto, fel gydag incwm a enillwyd a dyngarwch da, mae angen presenoldeb a phroffil mwy ar draws y gymdeithas. Beth yw'r cymhelliad dros fuddsoddi yn y sector y tu hwnt i feysydd (e.e. digidol) a allai olygu bod elw yn bosibl? Er mwyn i'r sector gael buddsoddiad cynyddol mae angen iddo dynnu sylw at ddychwelyd gwerth chweil. Efallai y bydd hyn yn bosibl i sefydliadau mwy o fewn y sector, ond beth am sefydliadau'r celfyddydau cymunedol a darparwyr mwy lleol?

Credwn fod angen hyrwyddo a chefnogaeth i ffynhonellu a diogelu cyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau, gan godi ymwybyddiaeth o'r potensial i ariannu'r ddarpariaeth trwy gyfrwng llwybrau nad oes modd eu cyrraedd ar hyn o bryd. Wrth gyrchu arian ar gyfer Gŵyl Grai / Rawffest, Gŵyl Celfyddydau leuenctid Cymru, rydym wedi gwneud cais i nifer o ymddiriedolaethau a sefydliadau ledled y DU gyda chyfradd lwyddiant isel. Mae gan RawFfest broffil cynyddol a byddai'n debygol y bydd ymddiriedolaethau a sefydliadau yn ei gefnogi ond realiti'r sefyllfa yw bod angen cymaint o amser ac adnoddau, gyda dim ond dychwelyd cymedrol o'r ardal hon. Mae llawer o waith i'w wneud o hyd i brofi'r gwaith ac amlinellu manteision cyllid gan ymddiriedolaethau a sefydliadau i'r sector celfyddydau yng Nghymru. Ochr yn ochr â hyn, rydym hefyd wedi cynnal ymgyrchoedd Crowdfunding, ac ar y ddau achlysur cynhyrchu lefel isel o gyllid. Rydyn ni'n siŵr bod llawer o bobl eraill wedi cael anawsterau hefyd i gyrchu arian trwy'r ffyrdd hyn. Roedd yn bwysedd ar adnoddau i gwblhau ceisiadau ac ymgymryd â'r ymgyrchoedd, a phob un yn arwain at sicrhau swm cymharol fach o gyllid. Gyda hyn yn feddwl, sut mae sector sydd eisoes yn teimlo nad oes digon o adnoddau yn mynd i ddod o hyd i'r gallu i ymgymryd â hyn, am yr hyn sydd, ar hyn o bryd, yn ymddangos yn gyfradd lwyddiant isel iawn?

Mae Gŵyl Grai / Rawffest yn gydweithrediad rhwng ADUK, Youth Arts Network Cymru (YANC), Newport Live!, Venue Cymru a CMC. Ar y cyd, mae Gŵyl Grai / Rawffest yn gallu cael gafael ar arian na allai fod yn hygyrch i bartneriaid fel

sefydliadau unigol. Mae cydweithio pellach yn y sector yn cynnwys ClymuCelf / ArtsConnect, rhwng gwasanaethau celfyddydau awdurdodau lleol Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg a Caerffili, Ymddiriedolaeth Ddiwylliannol Awen (Pen-y-bont ar Ogwr), Ymddiriedolaeth Hamdden Merthyr Tudful, a Arts Active (Caerdydd). Mae cydweithio wedi golygu bod y sefydliadau hyn wedi gallu pennu'r adnoddau i gael gafael ar arian ar gyfer mentrau ar y cyd.

Mae yna botensial hefyd i ddysgu o fodelau megis IndyCube, gan alluogi'r rheini yn y sector sydd â pherchnogaeth o adeiladau i: a) ennill incwm trwy rentu eu lleoedd; B) datblygu cydweithrediadau newydd, trwy ddarparu'r manau hyn i artistiaid a sefydliadau celfyddydol ac annog rhwydweithio. Er bod potensial yn hyn o beth, mae'r cafeat bod artistiaid a sefydliadau celfyddydol weithiau'n disgwyl bod lle yn cael eu rhoi fel cyfraniad mewn partneriaeth, megis yr hyn mai Gŵyl Grai / Rawffest yn disgwyl gan CMC yn ei ŵyl yn 2018.

At hynny, mae'r adnodd dynol o fewn y sector, er ei fod ar adegau'n gweithio o dan bwysau neu o ganlyniad i adnoddau ariannol cyfyngedig, yn cael profiad sylweddol o weithio mewn partneriaeth neu godi arian o ffynonellau allanol i sicrhau bod y pen draw yn cwrdd. Mae swyddogion y celfyddydau yn aml yn fedrus ac yn brofiadol yn y potensial o gynhyrchu incwm a gweithio gydag adnoddau ariannol cyfyngedig i gynhyrchu canlyniadau proffesiynol. Mae swyddogion y celfyddydau hefyd yn ymarferwyr profiadol iawn wrth gefnogi agendâu trawsbynciol, gan ddefnyddio'r celfyddydau i gynorthwyo gwasanaethau datblygu eraill megis addysg, iechyd, adfywio, gwasanaethau cymdeithasol, cefnogaeth i bobl hŷn ac atal troseddu, gan weithio'n aml mewn ardaloedd difreintiedig â chymunedau y mae eraill yn eu canfod yn anodd ei gyrraedd. Gallai swyddogion celfyddydol llywodraethau lleol a'r rhai sy'n gweithio o fewn sefydliadau celfyddydau werthu ar eu harbenigedd wrth gynghori cyrff nad ydynt yn ymwneud â'r celfyddydau, megis Byrddau Iechyd a Chymdeithasau Tai, ar sut i ddefnyddio'r celfyddydau i gwrdd â'u hamcanion a chyflawni eu deilliannau. Fodd bynnag, y cafeat i hyn yw bod eu harbenigedd yn aml heb eu gwerthfawrogi gan y rhai mewn sectorau eraill, ac mae canfyddiad cyffredin y gall unrhyw un ddyfeisio prosiectau celfyddydol, beth bynnag fo'u profiad, eu hyfforddiant a'u harbenigedd. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae angen mynd i'r afael ag ymwybyddiaeth gwerth y celfyddydau i gymdeithas, a gallai Llywodraeth Cymru chwarae rôl wrth geisio rhoi gwybod am y sector celfyddydau.